



Absenoldeb o Ysgolion Uwchradd, 2018/19


29 Awst 2019

SFR 69/2019

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf blynyddol hwn yn adrodd ar absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd, canol ac arbennig a gynhelir ac ysgolion annibynnol yng Nghymru.

Am ddadansoddiad manylach o gynnwys y datganiad hwn, gweler y [tablau](#) cysylltiedig neu ewch i wefan [StatsCymru](#).

Siart 1: Absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol, 2008/09 i 2018/19



Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn dangos absenoldeb cyffredinol ac anawdurdodedig o ysgolion uwchradd, gan gynnwys cyflwyniad o'r data fesul rheswm am absenoldeb. Mae hefyd yn adrodd ar absenoldeb cyson mewn ysgolion uwchradd.

Dangosir data ar lefel Cymru, awdurdod lleol a chonsortïwm.

Mae gwybodaeth yn berthnasol i fwyafrif o'r flwyddyn academiaidd, o 2007/08 i 2018/19 ac yn dangos y canran o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion.

Rydym yn croesawu unrhyw [adborth](#) am fformat newydd y datngaiad yma.

I gyd-fynd gyda'r datganiad:

[Tablau manwl](#)

[Gwybodaeth Technegol a gwybodaeth allweddol am ansawdd](#)

[Tablau YstadegauCymru](#)

- ➡ Yn 2018/19 arhosodd **absenoldeb cyffredinol** yn gyson yn 6.2%.
- ➡ Hyd at 2015/16, roedd y tuedd tymor hir i lawr.
- ⬆ Yn 2018/19, bu cynnydd yn absenoldeb anawdurdodedig o 1.6% i 1.7% yn dilyn y cynnydd o 0.2% y flwyddwn flaenorol.

Absenoldeb yn ôl rhyw, 2018/19:

Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd:

Fel yn 2017/18, roedd gan bechgyn absenoldeb cyffredinol uwch na merched.



Roedd **absenoldeb anawdurdodedig** ychydig yn uwch ar gyfer bechgyn na merched fel yn 2017/18, er bod y ddau ryw wedi gweld cynnydd (canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd: **bechgyn 1.8%, merched 1.7%**).

Absennol yn gyson

Mae ychydig o dan 1 mewn bob 20 o ddisgyblion yn rhai sy'n absennol yn gyson o ysgolion uwchradd a chanol brif ffrwd yn 2018/19 (4.6 y cant).

Bu cynnydd yn y canran o ddisgyblion sy'n absennol yn gyson o 4.1% i 4.6% yn 2018/19, ac mae nawr ar ei lefel uchaf ers 2013/14.



Absennol yn gyson – rhagor o fanylion

Ym mhob blwyddyn ers 2011/12 mae'r canran o hanner dyddiau wedi'i fethu gan disgyblion a oedd yn absennol yn gyson oherwydd:




Absenoldeb awdurdodedig wedi gostwng.



Absenoldeb anawdurdodedig wedi cynyddu.

Mae'r 4.6% o ddisgyblion sydd yn absennol yn gyson yn cyfri am 45.0% o'r holl absenoldeb anawdurdodedig yn 2018/19.

Canran o absenoldeb anawdurdodedig y mae disgyblion sydd neu sydd ddim yn absennol yn gyson yn gyffifol am yn 2018/19:




Rhesymau dros absenoldeb

- Salwch oedd y rheswm mwyaf cyffredin am absenoldeb yn ysgolion yn ysgolion uwchradd a chanol prif ffrwd yn cyfri am 54.0% o'r hollol absenoldeb yn 2018/19.
- Bu gostyngiad bach o 3.5% yn 2017/18 i 3.3% yn 2018/19 yn y canran o sesiynau a gollwyd oherwydd salwch.
- Dim newid yn 2018/19 yn y canran o absenoldebau oherwydd gwyliau teuluol y cytunodd yr ysgol iddynt (2.4%).
- Bu cynnydd bach (o 4.3% yn 2017/18 i 4.7% yn 2018/19) yn y canran o wyliau na chytunodd yr ysgol iddynt. Mae wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2012/13. (Nid yw'r cynnydd yn angenrheidiol yn meddwl bod y ganran o sesiynau hanner-dydd wedi eu methu oherwydd y rheswm yna wedi cynyddu. Mae'n golygu bod cyfran uwch o absenoldebau wedi'u ddynodi i'r rheswm penodol yna ar gyfer y flwyddyn yna).
- Bu dim newid o 2017/18 yn y canran o sesiynau a gollwyd oherwydd gwyliau na chytunodd yr ysgol iddynt (0.3%).
- Roedd cyfradd fawr (22.4%) o'r sesiynau absenoldeb am resymau anawdurdodedig nad oes cod ar eu cyfer. Mae'r defnydd o cod presenoldeb 'O' wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2012/13 ond eleni roedd y cynydd mwyaf (2.4%).

Hyd absenoldeb, 2018/19:

60% o ddisgyblion yn absennol am 10 diwrnod neu llai.

Ychydig yn fwy na 10% o ddisgyblion yn absennol am fwy na 20 diwrnod (10.4%)



Absenoldeb yn ôl hawl i brydau ysgol am ddim



Yn gyffredinol, mae gan ysgolion â chyfradd uwch o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim gyfraddau absenoldeb uwch.

Awdurdodau Lleol, 2018/19:

- Yn Sir Fynwy oedd y gyfradd isaf o absenoldeb cyffredinol (5.0 y cant) ac anawdurdodedig (0.7 y cant).
- Ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf oedd y gyfradd uchaf o ran absenoldeb cyffredinol (7.2 y cant) ac anawdurdodedig (2.7 y cant).

Mae'r [nodiadau i gyd-fynd â'r datganiad hwn](#) ar gael ar ein wefan Ystadegau ac Ymchwil.

Diffiniadau

Mathau o Absenoldeb

Mae **pob** absenoldeb (neu absenoldebau 'cyffredinol') yn cynnwys y rheini sydd wedi'u hawdurdodi a'r rheini sydd heb eu hawdurdodi:

- absenoldeb a ganiatawyd gan athro neu gynrychiolydd awdurdodedig arall o'r ysgol yw absenoldeb a awdurdodwyd. Mae hyn yn cynnwys absenoldebau y rhoddwyd esboniad boddhaol drosto (ee salwch, profedigaeth deuluol neu achlysur crefyddol).
- absenoldeb na chaniatawyd gan athro neu gynrychiolydd awdurdodedig o'r ysgol yw absenoldeb anawdurdodedig. Mae hyn yn cynnwys pob absenoldeb na roddwyd esboniad neu gyfiawnhad drosto.

Lle bydd disgyblion yn dilyn gweithgareddau addysgol sydd wedi'u cymeradwyo ac sy'n cael eu goruchwyllo ar safle arall (ee profiad gwaith neu ymweliadau addysgol), ystyrir eu bod yn bresennol yn yr ysgol.

Dyddiadau tymhorau

Casglwyd data presenoldeb ac absenoldeb ar y dyddiau pan oedd yr ysgolion ar agor i ddisgyblion rhwng y dyddiadau canlynol:

- Tymor yr hydref - o 3 Medi 2018 i 24 Rhagfyr 2018.
- Tymor y gwanwyn - o 25 Rhagfyr 2018 i 21 Ebrill 2019.
- Tymor yr haf - o 22 Ebrill 2019 i 24 Mai 2019.

Daw'r casgliad hwn i ben ym mis Mai gan fod disgyblion blwyddyn 11 ar absenoldeb astudio yn ystod arholiadau.

Disgyblion sy'n absennol yn gyson

Caiff dysgwyr sy'n absennol yn gyson eu diffinio fel dysgwyr a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o nifer modd y sesiynau hanner diwrnod pan oedd ysgolion ar agor i ddysgwyr (heb gynnwys dyddiau HMS). Bydd yr enghraifft ganlynol o sut y cafodd disgyblion a oedd yn absennol yn gyson eu gwerthuso ar gyfer 2018/19 yn helpu i esbonio hyn:

- Y modd yw'r nifer sy'n ymddangos amlaf, felly nifer modd y sesiynau hanner diwrnod pan oedd ysgolion ar agor i ddisgyblion yw'r nifer amlaf o sesiynau pan oeddent ar agor i ddisgyblion. Yn achos 2018/19, roedd y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a gynhelir ar agor i ddisgyblion am 310 o sesiynau hanner diwrnod o ddechrau'r flwyddyn academaidd hyd ŵyl banc diwedd Mai.
- Ugain y cant o'r ffigur hwnnw yw 62 ($316 * 0.2 = 62$) o sesiynau hanner diwrnod.
- Yn 2018/19, felly, ystyriwyd bod rhywun oedd yn absennol am o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod yn ddisgybl a oedd yn absennol yn gyson.

Gan fod nifer modd y sesiynau pan oedd ysgolion ar agor i ddisgyblion yn newid o un flwyddyn i'r llall, mae'r ffigur a ddefnyddir i benderfynu a yw disgybl yn ddisgybl sy'n absennol yn gyson ai peidio hefyd yn newid. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwerthoedd a ddefnyddiwyd i werthuso absenoldeb cyson rhwng 2008/09 a 2018/19.

Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: <https://llyw.cymru/absenoldeb-o-ysgolion-uwchradd-medi-2018-i-awst-2019>

Diweddariad nesaf

Awst 2020 (dros dro)

Bydd y diweddariad nesaf yn cynnwys adroddiad am y flwyddyn academaidd 2019/20.

Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#) oni nodir yn wahanol.

